Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
49/2020
Dyddiad Cyhoeddi:
05/08/2020

# Agweddau'r Cyhoedd tuag at Effeithlonrwydd Dŵr yng Nghymru

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80038-970-0

Agweddau'r Cyhoedd tuag at Effeithlonrwydd Dŵr yng Nghymru

Awdur: Isabella Malet-Lambert

Adroddiad Ymchwil Llawn: Malet-Lambert, Isabella (2020). *Agweddau'r Cyhoedd tuag at Effeithlonrwydd Dŵr yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 49/2020.
Ar gael ar: https://llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-arbed-dwr-yng-nghymru

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:
Isabella Malet-Lambert
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Rhif ffôn: 0300 628250
Cyfeiriad e-bost: isabella.malet-lambert@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o ffigurau ..... 1
Geirfa ..... 2
1. Cyflwyniad/Cefndir ..... 3
2. Methodoleg ..... 4
3. Canfyddiadau ..... 6
4. Casgliadau ..... 15
Atodiad A ..... 17

### Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: Pa gamau o blith y rhain, os unrhyw rai o gwbl, ydych chi'n eu cymryd y dyddiau hyn? Unrhyw rai eraill? ..... 6
Ffigur 3.2: Dywedwch wrthyf i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynglŷn â defnyddio dŵr: ..... 7
Ffigur 3.3: O blith y rhesymau canlynol dros benderfynu defnyddio llai o ddŵr, pa rai sy'n berthnasol i chi? Unrhyw rai eraill? ..... 8
Ffigur 3.4: Beth, os unrhyw beth o gwbl, a fyddai'n eich annog i ddefnyddio llai o ddŵr? ..... 9
Ffigur 3.5: Beth a allai eich atal rhag arbed dŵr neu arbed mwy o ddŵr yn y cartref? ..... 11
Ffigur 3.6: Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n gwneud unrhyw rai o'r canlynol i arbed dŵr? ..... 12
Ffigur 3.7: Yn eich tyb chi, faint o gyfrifoldeb sydd gan bob un o'r grwpiau canlynol am leihau'r defnydd o ddŵr? ..... 13

**Geirfa**

| Acronym / Gair allweddol | Diffiniad |
| --- | --- |
| Arolwg Omnibws | Arolwg ansoddol wyneb yn wyneb yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau |
| CAPI (Computer Aided Personal Interviewing) | Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadur |
| LSOA (Lower Layer Super Output Area) | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is |
| Mesurydd dŵr | Dyfais ar gyfer mesur a chofnodi faint o ddŵr sy’n mynd trwy allanfa |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1. Gan fod y boblogaeth yn tyfu a chan fod newidiadau sy’n gysylltiedig â newid hinsawdd i’w gweld yn y tywydd, mae’n bwysig i Lywodraeth Cymru ystyried sut caiff dŵr ei amgyffred a’i ddefnyddio yng Nghymru er mwyn cynnig canllawiau i lunwyr polisïau’r dyfodol. Dyna pam mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn clywed beth yw barn y cyhoedd ynglŷn â dŵr, yn arbennig o ran pa un a ystyrir dŵr yn adnodd y mae pen draw iddo, beth sy’n ysgogi’r cyhoedd i arbed dŵr a beth sy’n eu rhwystro rhag gwneud hynny.

1.2. Nod y gwaith ymchwil hwn oedd casglu data’n ymwneud â sut caiff dŵr ei amgyffred gan y cyhoedd yng Nghymru. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar agweddau tuag at ddefnyddio mesuryddion dŵr ac ailgylchu dŵr, ysgogiadau a rhwystrau ymddangosiadol o ran defnyddio llai o ddŵr, a dulliau presennol o ymddwyn mewn perthynas â lleihau’r defnydd o ddŵr.

1.3. Gellir defnyddio’r gwaith ymchwil i lywio ymchwil arall mwy manwl. Hefyd, gellir ei ddefnyddio i lywio’r gwaith o ddatblygu polisïau’n ymwneud ag effeithlonrwydd dŵr yn y dyfodol.

1.4. Mae’r adroddiad ymchwil hwn yn cynnwys trosolwg o’r atebion a roddwyd gan y rhai a ymatebodd i’r cwestiynau a gynhwysir yn yr holiadur. Mae’r holl ffigurau a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn yn cyrraedd arwyddocâd ystadegol (gweler y nodyn ar arwyddocâd ystadegol yn adran 2.8), ac eithrio’r rhai nad oes iddynt arwyddocâd ystadegol ond a gynhwysir at ddibenion cymharu. Caiff y rhain eu nodi’n glir.

## 2. Methodoleg

2.1. Cwblhawyd y gwaith o gasglu'r data gan dîm Arolwg Omnibws Beaufort. Bwriedir i'r sampl Omnibws gynrychioli'r boblogaeth o oedolion dros 16 oed sy'n byw yng Nghymru. Yr uned samplu yw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)[1] a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru â thebygolrwydd sy'n gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl eu haenu yn ôl Awdurdod Lleol a Gradd Gymdeithasol.

2.2. Ym mhob pwynt samplu, defnyddir mesurau rheoli cwota demograffig sy'n rhyng-gloi, ar ffurf oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn y rhywiau, i ddewis ymatebwyr. Gosodir y cwotâu i ddangos proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewisir.

2.3. Dewisir sampl newydd o unigolion a lleoliadau cyfweld ar gyfer pob arolwg ac ni chaiff mwy nag un unigolyn o bob aelwyd ei gyfweld. Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadur).

2.4. Aethpwyd i'r afael â'r gwaith maes rhwng 16 Medi a 15 Hydref 2019. Cafodd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau eu cynnal a'u dadansoddi.

**Yr Holiadur**

2.5. Pan fu modd, cymerwyd cwestiynau o holiaduron a fodolai eisoes. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys Cyngor Defnyddwyr Cymru, DEFRA a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

2.6. Yn achos cwestiynau nad oeddynt i'w cael mewn arolygon blaenorol, cawsant eu llunio gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth tîm arolwg Omnibws Beaufort.

2.7. Ceir rhestr lawn o'r cwestiynau yn Atodiad A.

**Arwyddocâd Ystadegol**

2.8. Pan gaiff data arolwg ei brofi am arwyddocâd ystadegol, cymerir yn ganiataol fod y sampl a gyflawnir yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfrannol (yn hytrach na hapsamplu), mewn gwirionedd ni ellir pennu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol[2]. Felly, pan gaiff gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp ei ddisgrifio fel gwahaniaeth

[1] Gogledd Cymru, Canolbarth/Gorllewin Cymru, Gorllewin De Cymru, y Cymoedd, Caerdydd a Dwyrain De Cymru oedd y rhain.

[2] 4 Gschwend, T (2005). Analyzing Quota Sample Data and the Peer-review Process. *French Politics*, 2005, 3, (88–91).

‘arwyddocaol’ yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar 95 y cant o’r lefel hyder. Pe bai’r arolwg yn defnyddio hapsampl, golyga hyn y byddai’r tebygolrwydd o gael gafael ar y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20.


# 3. Canfyddiadau

3.1. Cyflwynir canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn isod. Caiff y canfyddiadau eu clystyru mewn categorïau yn seiliedig ar bwnc y cwestiynau a ofynnwyd i'r ymatebwyr.

***Ymddygiadau Amgylcheddol***

3.2 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn ymddwyn mewn ffyrdd a oedd o fudd i'r amgylchedd, dywedodd 42% eu bod yn cymryd camau ar hyn o bryd i ddefnyddio llai o ddŵr (Ffigur 3.1). Yn achos chwe deg y cant o'r rhai a ddywedodd eu bod yn cymryd camau i ddefnyddio llai o ddŵr, roedd ganddynt fesurydd dŵr, mewn cymhariaeth â 35% a oedd heb fesurydd dŵr.

**Ffigur 3.1: Pa gamau o blith y rhain, os unrhyw rai o gwbl, ydych chi'n eu cymryd y dyddiau hyn? Unrhyw rai eraill?**





3.3 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'Rhaid i bawb wneud popeth o fewn eu gallu i wastraffu llai o ddŵr', roedd 85% yn cytuno â'r datganiad ac roedd 4% yn anghytuno (ffigur 3.2).

3.4 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'Ni allaf weld pwrpas mewn ceisio arbed dŵr', roedd 13% yn cytuno â'r datganiad a 76%

yn anghytuno. Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn os nad oedd ganddynt fesurydd dŵr yn eu cartref (15% mewn cymhariaeth ag 8%).

3.5 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'Rwy'n arbed dŵr hyd yn oed os yw'n golygu ymdrech ychwanegol', roedd 55% yn cytuno â'r datganiad a 26% yn anghytuno. Roedd ymatebwyr a chanddynt fesurydd dŵr (66%) yn fwy tebygol na'r rhai a oedd heb fesurydd dŵr (51%) o gytuno â'r datganiad hwn.

**Ffigur 3.2: Dywedwch wrthyf i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynglŷn â defnyddio dŵr:**





### *Rhesymau dros ddefnyddio llai o ddŵr a rhwystrau rhag defnyddio llai o ddŵr*

3.6 Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr yn uniongyrchol a oeddynt wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i ddefnyddio llai o ddŵr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dywedodd 56% eu bod wedi gwneud penderfyniad o'r fath a dywedodd 42% nad oeddynt wedi gwneud hynny.

3.7 Yn achos yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i ddefnyddio llai o ddŵr, gofynnwyd pam oeddynt wedi penderfynu gwneud hynny. Dangosir y canlyniadau hyn y ffigur 3.3.

3.8 Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd ei fod yn ‘ymddangos fel y peth iawn i’w wneud’, gyda 62% o’r ymatebwyr yn dewis y datganiad hwn. Ymddengys fod cael gwybodaeth gan gwmnïau dŵr (14%) neu o fannau eraill (16%) wedi ysgogi canran lai o’r ymatebwyr i ddefnyddio llai o ddŵr.

**Ffigur 3.3: O blith y rhesymau canlynol dros benderfynu defnyddio llai o ddŵr, pa rai sy’n berthnasol i chi? Unrhyw rai eraill?**




* Nid oedd y canfyddiadau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol, ond maent wedi eu cynnwys at ddibenion cymharu yn unig

3.9 Gofynnwyd i’r holl gyfranogwyr beth fyddai’n eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr. Ceir rhestr lawn o’r ymatebion yn ffigur 3.4. Ar y cyfan, dywedodd 44% o’r ymatebwyr na fyddai unrhyw beth yn eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr. Roedd rhywfaint o amrywio rhanbarthol i’w weld yn yr ymateb hwn, gyda 26% o’r ymatebwyr hyn yn byw yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru, mewn cymhariaeth â 63% a oedd yn byw yng Ngorllewin De Cymru.

3.10 O blith yr ymatebion dewis lluosog yn ymwneud ag arian, dywedodd 3% y byddent yn cael eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr ‘pe bai’r biliau neu’r gost yn cynyddu’, a dywedodd 8% y byddent yn defnyddio llai o ddŵr ‘pe bai’r biliau’n gostwng neu pe baen nhw’n cael cymhelliad neu ddisgownt’.


3.11 Dywedodd chwech y cant y byddai cael mesurydd dŵr yn eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr. Dylid nodi yn y fan hon fod 30% o’r ymatebwyr â mesurydd dŵr yn barod.

3.12. Pan ofynnwyd cwestiwn penagored ynglŷn â beth fyddai'n eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr, cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at fesuryddion dŵr. Dywedodd yr ymatebwyr naill ai fod ganddynt fesurydd dŵr yn barod neu eu bod yn rhagweld y byddent yn cael un yn y pen draw, a bod hyn yn eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr.

3.13. Mewn ymateb i'r cwestiwn penagored, dywedwyd hefyd fod pwysigrwydd dŵr yn rhywbeth a oedd yn eu hysgogi i ddefnyddio llai o ddŵr. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr fod eu plant wedi dysgu am effeithlonrwydd dŵr yn yr ysgol a bod hyn wedi'u hannog i fod yn fwy gofalus o ran faint o ddŵr roeddynt yn ei ddefnyddio.

3.14. Ymhellach, soniodd y rhai a oedd yn gweithio yn y diwydiant, neu'r rhai a oedd â chysylltiad proffesiynol â chwmni dŵr, am y rheswm hwn dros leihau eu defnydd o ddŵr.

**Ffigur 3.4: Beth, os unrhyw beth o gwbl, a fyddai'n eich annog i ddefnyddio llai o ddŵr?**




3.15. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr beth a allai eu hatal rhag arbed dŵr neu arbed mwy o ddŵr yn y cartref, dywedodd 43% eu bod eisoes yn gwneud popeth o fewn eu gallu i arbed dŵr. Cyflwynwyd yr ymateb hwn gan bum deg chwech y cant o'r rhai a oedd â mesurydd dŵr, mewn cymhariaeth â 38% o'r rhai nad oedd ganddynt fesurydd dŵr.

3.16. Dywedodd un deg naw y cant o'r ymatebwyr nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am eu defnydd personol o ddŵr. Roedd ymatebwyr a oedd heb fesurydd dŵr yn fwy

tebygol na’r rhai a chanddynt fesurydd dŵr o gytuno â’r datganiad hwn (23% mewn cymhariaeth ag 11%).

3.17. Dywedodd un deg naw y cant ‘[na] cheir digon o gymorth a chyngor ynglŷn â sut i gyflwyno newidiadau’. Roedd ymatebwyr a oedd yn byw yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru (28%) yn fwy tebygol na’r rhai a oedd yn byw yng Ngogledd Cymru (15%) neu Orllewin De Cymru (12%) o gytuno â’r datganiad hwn.

3.18. Ar y cyfan, dywedodd 11% o’r ymatebwyr eu bod o’r farn nad yw hyn yn flaenoriaeth – ‘mae cymaint o ddŵr i’w gael yng Nghymru’. Roedd ymatebwyr a oedd yn byw yn y Cymoedd (21%) yn fwy tebygol na’r rhai a oedd yn byw yng Ngogledd Cymru (5%) neu Orllewin De Cymru (7%) o gytuno â’r datganiad hwn. Gellir gweld ystod lawn yr ymatebion yn ffigur 3.5 isod.


3.19. Pan ofynnwyd cwestiwn penagored ynglŷn â beth fyddai’n eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr, awgrymodd yr ymatebwyr y byddent yn lleihau eu defnydd o ddŵr pe bai hynny’n arbed arian iddynt. Nodwyd y byddai deall y gydberthynas rhwng y defnydd a wneir o ddŵr a chynnydd yn y gost neu ostyngiad mewn biliau dŵr yn ffactor y byddai pobl yn ei ystyried wrth ddefnyddio dŵr yn eu cartref.

3.20. Crybwyllwyd aelodau’r teulu fel ffynhonnell cymhelliant a ffynhonnell anghymhelliant mewn perthynas â defnyddio llai o ddŵr. Pe bai aelodau eraill y teulu’n ceisio defnyddio llai o ddŵr, byddai hyn yn annog eraill i beidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, dywedwyd hefyd fod cael plant ar yr aelwyd yn ei gwneud hi’n anos defnyddio llai o ddŵr. Byddai’n fwy tebygol o fod yn rhywbeth y gallai’r aelwydydd hyn ei wneud pan fyddai eu plant yn hŷn.

3.21. Nodwyd y byddai newidiadau deddfwriaethol neu newidiadau polisi gan Lywodraeth Cymru yn rhywbeth a fyddai’n ysbrydoli pobl i newid eu defnydd o ddŵr.

3.22. Dywedodd rhai o’r ymatebwyr na fyddai unrhyw beth yn eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr. Dywedodd eraill nad oedd yna unrhyw beth y gallent ei wneud, neu nad oedd atebion clir i’w cael i’r problemau a oedd yn gysylltiedig â’r defnydd o ddŵr.


**Ffigur 3.5: Beth a allai eich atal rhag arbed dŵr neu arbed mwy o ddŵr yn y cartref?**




3.23. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml oeddynt yn ymddwyn mewn ffyrdd a oedd yn arbed dŵr. Dangosir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ffigur 3.6 isod.

3.24. Y datganiad a arweiniodd at y nifer fwyaf o ymatebion 'bob amser' neu 'weithiau' oedd cau'r tap wrth olchi'r llestri (84%), ac yna cau'r tap wrth frwsio dannedd (82%).

**Ffigur 3.6: Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n gwneud unrhyw rai o'r canlynol i arbed dŵr?**





***Cyfrifoldeb dros arbed dŵr***

3.25. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pwy, yn eu tyb nhw, a oedd yn gyfrifol am leihau faint o ddŵr a ddefnyddir. Dywedodd y mwyafrif (76% o'r ymatebwyr) fod 'llawer iawn' o'r cyfrifoldeb hwn ar gwmnïau dŵr, roedd 58% o'r farn fod cymaint o gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru, a 55% ar fusnesau.

3.26. Roedd wyth deg un o'r ymatebwyr o'r farn fod 'llawer iawn' neu 'gryn dipyn' o'r cyfrifoldeb arnyn nhw eu hunain a'r boblogaeth yn gyffredinol (gweler ffigur 3.7 isod).

**Ffigur 3.7: Yn eich tyb chi, faint o gyfrifoldeb sydd gan bob un o'r grwpiau canlynol am leihau'r defnydd o ddŵr?**




***Defnydd posibl o offer sy'n arbed mwy o ddŵr***

3.27. Pe bai offer sy'n defnyddio dŵr, fel peiriannau golchi, peiriannau golchi llestri neu degelli, yn arddangos gwybodaeth am eu heffeithlonrwydd dŵr, gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddai hyn yn eu hannog i ddewis offer sy'n arbed mwy o ddŵr. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr (73%) y byddai hyn yn eu hannog i ddewis offer sy'n arbed mwy o ddŵr. Roedd pobl sy'n talu biliau ar y cyd ag eraill yn fwy tebygol o roi ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn (80%), mewn cymhariaeth â'r rhai nad oeddynt yn talu biliau (76%) neu'r rhai a oedd yn talu biliau ar eu pen eu hunain (70%).

3.28. Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddent yn ystyried dewis offer sy'n arbed mwy o ddŵr pe baen nhw'n costio mwy, neu dim ond pe baen nhw'n costio'r un faint. 'Dim ond pe baen nhw'n costio'r un faint' oedd yr ateb mwyaf cyffredin (45%). Dywedodd tri deg pedwar y cant nad oeddynt yn gwybod, neu y byddai'n dibynnu ar y gwahaniaeth yn y gost. Dywedodd dau ddeg dau y cant y byddent yn talu mwy.

***Mesuryddion dŵr***

3.29. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt fesurydd dŵr. Dywedodd tri deg y cant fod ganddynt fesurydd dŵr a dywedodd 64% nad oedd ganddynt un. Dywedodd 6% nad oeddynt yn gwybod.

3.30. Yn achos yr ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt fesurydd dŵr yn eu cartref, gofynnwyd iddynt a oedd hyn yn eu hannog i ddefnyddio dŵr yn fwy gofalus. Roedd 82% yn cytuno â'r datganiad hwn ac roedd 10% yn anghytuno.

3.31. Yna, gofynnwyd i'r rhai a chanddynt fesurydd dŵr a oeddynt o'r farn y dylai pob cartref gael un. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad hwn (roedd 79% yn cytuno ac 8% yn anghytuno).

# 4. Casgliadau

4.1. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â datganiadau'n ymwneud â phwysigrwydd arbed dŵr. Roedd nifer o'r ymatebwyr wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i ddefnyddio llai o ddŵr ac roedd y mwyafrif yn ymddwyn mewn ffyrdd a oedd yn anelu at leihau eu defnydd o ddŵr. Mae hyn yn awgrymu bod arbed dŵr yn cael ei ystyried fel rhywbeth gwerthfawr a gwerth chweil.

4.2. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a oedd â mesurydd dŵr o blaid gwneud mesuryddion dŵr yn ofynnol ym mhob cartref. Yn achos y cwestiynau penagored yn ymwneud â beth fyddai'n annog yr ymatebwyr i ddefnyddio llai o ddŵr, roedd yr ymatebion yn awgrymu y gallai mesuryddion dŵr hyrwyddo hyn. Dengys hyn y gallai mesuryddion dŵr fod yn ffordd effeithiol o annog pobl i ddefnyddio llai o ddŵr.

4.3. Yn achos nifer o'r cwestiynau a oedd yn ymwneud â pha un a yw mesuryddion dŵr yn arwain at leihad yn y defnydd o ddŵr, neu at well ymwybyddiaeth o faint o ddŵr a ddefnyddir, roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn eu bod yn llwyddo i wneud hyn. Nid oes modd canfod ar sail y gwaith ymchwil hwn pa un a yw'r farn hon yn deillio o'r ffaith fod mesuryddion dŵr yn rhoi adborth ar faint o ddŵr a ddefnyddir ac felly'n arwain at fwy o leihad yn y defnydd o ddŵr, neu a yw'r unigolion sy'n fwy pryderus ynghylch eu defnydd o ddŵr yn fwy tebygol o gael mesurydd dŵr. Bydd angen mynd i'r afael â gwaith ymchwil pellach er mwyn canfod yr ateb.

4.4. Yr ymateb mwyaf cyffredin ond un i gwestiwn ynglŷn â beth sy'n atal yr ymatebwyr rhag arbed dŵr oedd methu â gwybod beth arall y gallent ei wneud i leihau eu defnydd o ddŵr (gweler ffigur 3.5). Mae'r trydydd a'r pedwerydd ymateb mwyaf cyffredin hefyd yn ymwneud â diffyg gwybodaeth am bwysigrwydd arbed dŵr, neu ddefnydd unigolyn o ddŵr. Dywedodd cyfran fechan o'r ymatebwyr fod cael gwybodaeth am arbed dŵr wedi'u hannog i ddefnyddio llai o ddŵr. Awgryma hyn y gallai cyflwyno gwybodaeth ychwanegol am bwysigrwydd arbed dŵr, a sut i gyflawni hynny, fod o fudd wrth annog lleihad yn y defnydd o ddŵr.

4.5. Ymddengys fod cost dŵr yn hollbwysig yn y penderfyniadau a wna nifer o bobl ynglŷn â lleihau eu defnydd o ddŵr. Y ffactor mwyaf cyffredin ond un a fyddai'n peri i'r ymatebwyr ddefnyddio llai o ddŵr yw pe bai biliau dŵr yn gostwng petaent yn defnyddio llai o ddŵr, neu pe bai cymhellion ariannol i'w cael i ddefnyddio llai o ddŵr.

Pan ofynnwyd i’r ymatebwyr a fyddent yn prynu offer a fyddai’n arbed mwy o ddŵr, dywedodd y mwyafrif mai’r unig adeg y byddent yn gwneud hynny yw pe bai’n arbed arian iddynt.

4.6. Dywedodd chwe deg dau y cant o’r ymatebwyr eu bod o’r farn mai defnyddio llai o ddŵr oedd ‘y peth iawn i’w wneud’. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt beth fyddai’n eu hannog i ddefnyddio llai o ddŵr, soniodd nifer o’r ymatebwyr am arbedion ariannol. Efallai fod y gwahaniaeth hwn yn awgrymu diffyg cysylltiad posibl rhwng agweddau’r ymatebwyr tuag at arbed dŵr a’u hymddygiad mewn perthynas â lleihau’r defnydd o ddŵr. Fel arall, fe allai’r anghysondeb hwn ddeillio o’r tensiwn rhwng yr hyn y cred pobl yw’r peth iawn i’w wneud a’u dymuniad i arbed arian.

4.7. Yn olaf, ymddengys fod peth amrywio rhanbarthol i’w weld mewn ymatebion i gwestiynau’n ymwneud â’r rhesymau dros ddefnyddio llai o ddŵr a’r rhwystrau rhag gwneud hynny (gweler paragraff 3.9). Gellid defnyddio’r wybodaeth hon i dargedu strategaethau cyfathrebu’n ymwneud â’r defnydd o ddŵr a’r hyn y gall unigolion ei wneud i arbed dŵr neu werth yr arfer o arbed dŵr i’r rhanbarthau perthnasol.

## Atodiad A

**Arolwg Omnibws Cymru – Medi**

**Cwestiynau'n ymwneud â defnyddio dŵr TERFYNOL 05.09.19**

*Cerdyn arddangos*

**C1. Pa gamau o blith y rhain, os unrhyw rai o gwbl, ydych chi'n eu cymryd y dyddiau hyn? Unrhyw rai eraill?**
*Codiwch yr holl rai a grybwyllir*

Compostio bwyd sydd ar ôl
Defnyddio llai o blastig
Lleihau faint o ynni a ddefnyddir yn y cartref (e.e. gostwng y thermostat)
Bwyta llai o gig
Ailgylchu cymaint ag y gallaf
Defnyddio llai o ddŵr
Defnyddio llai ar y car

Dim un o'r rhain

*Cerdyn arddangos*

**C2. Dywedwch wrthyf i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynglŷn â defnyddio dŵr. A ydych chi'n cytuno'n gryf, yn tueddu i gytuno, heb gytuno nac anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno'n gryf?**
DARLLENWCH Y RHAIN YN UCHEL – DEWISWCH Y DREFN AR HAP

i) Rhaid i bawb wneud popeth o fewn eu gallu i wastraffu llai o ddŵr
ii) Alla'i ddim gweld pwrpas mewn ceisio arbed dŵr
iii) Rwy'n arbed dŵr hyd yn oed os yw'n golygu ymdrech ychwanegol
iv) Mae arbed dŵr yn ormod o drafferth
v) Mae defnyddio dŵr yn y cartref yn defnyddio llawer o ynni ac yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr

**C3. A ydych chi'n credu eich bod wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i ddefnyddio llai o ddŵr yn ystod y blynyddoedd diwethaf?**

| | |
|---|---|
| Ydw | - GOFYNNWCH GWESTIWN 4 |
| Nac ydw | - EWCH I GWESTIWN 5 |
| Ddim yn gwybod | - EWCH I GWESTIWN 5 |

AR GYFER POBL SY’N DEFNYDDIO LLAI O DDŴR

*Cerdyn arddangos*

**C4. O blith y rhesymau canlynol dros benderfynu defnyddio llai o ddŵr, pa rai sy’n berthnasol i chi? Unrhyw rai eraill?** *Codiwch yr holl rai a grybwyllir*

O ganlyniad i gael gwybodaeth am arbed dŵr gan fy nghwmni dŵr
O ganlyniad i gael gwybodaeth am arbed dŵr o fannau eraill
Am resymau amgylcheddol – er mwyn tynnu llai o ddŵr o afonydd a helpu bywyd gwyllt
Mae’n ymddangos fel y peth iawn i’w wneud
Er mwyn arbed arian ar fy mil dŵr

Arall (nodwch) ______________
Ddim yn gwybod

GOFYNNWCH I BAWB

**C5. Beth, os unrhyw beth o gwbl, a fyddai’n eich annog i ddefnyddio llai o ddŵr?**
*Cofnodwch yr ymatebion air am air*

________________________________________

Dim byd

Ddim yn gwybod

*Cerdyn arddangos*

**C6. Gan feddwl am yr hyn a allai eich atal rhag arbed dŵr neu arbed mwy o ddŵr yn y cartref, pa ddatganiadau o blith y rhai canlynol sy’n berthnasol i chi?**
*Gallwch amlgodio*

Ni allaf fynd i’r drafferth i arbed dŵr
Rwy’n gwneud popeth a allaf yn barod i arbed dŵr
Dydw i ddim o’r farn ei fod yn flaenoriaeth – mae cymaint o ddŵr i’w gael yng Nghymru
Does gen i ddim digon o wybodaeth am fy nefnydd personol o ddŵr
Dydw i ddim yn gwybod beth arall y gallaf ei wneud i arbed dŵr
Does dim ots os ydw i’n defnyddio llawer neu ychydig o ddŵr – dydy e ddim yn costio dim mwy i mi
Dydy hi ddim yn hawdd arbed dŵr
Cyfrifoldeb rhywun arall yw arbed dŵr
Dydy cyfyngu ar faint o ddŵr a ddefnyddiwch wrth gael baddon a chawod ddim yn rhywbeth glân i’w wneud
Dydw i erioed wedi meddwl am arbed dŵr
Fydd yr hyn wna’i ddim yn gwneud gwahaniaeth
Does dim digon o wybodaeth am brinder dŵr
Does dim digon o gymorth a chyngor ynglŷn â sut i gyflwyno newidiadau
Mae offer sy’n arbed dŵr (er enghraifft, peiriannau golchi) yn rhy ddrud i’w prynu
Ddim yn gwybod

*Cerdyn arddangos*

**C7. Pa mor aml, os o gwbl, ydych chi'n gwneud unrhyw rai o'r canlynol i arbed dŵr?** DARLLENWCH Y RHAIN YN UCHEL – DEWISWCH Y DREFN AR HAP

| | Bob amser | Weithiau | Byth | Amherthnasol | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cau'r tap wrth frwsio eich dannedd | | | | | |
| Cau'r tap wrth olchi'r llestri | | | | | |
| Defnyddio peiriannau (fel peiriannau golchi) gyda llwyth llawn yn unig | | | | | |
| Cymryd cawodydd byr | | | | | |
| Cymryd cawod yn lle baddon | | | | | |
| Defnyddio can dŵr yn hytrach na phibell ddŵr i ddyfrio'r ardd | | | | | |
| Defnyddio bwced yn hytrach na phibell ddŵr i olchi'r car | | | | | |
| Trwsio tapiau sy'n diferu (neu ofyn iddynt gael eu trwsio) | | | | | |

*Cerdyn arddangos*

**C8. Yn eich tyb chi, faint o gyfrifoldeb sydd gan bob un o'r grwpiau canlynol am leihau'r defnydd o ddŵr?** DARLLENWCH Y RHAIN YN UCHEL – DEWISWCH Y DREFN AR HAP

| | Llawer iawn | Cryn dipyn | Rhywfaint | Dim o gwbl | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Chi eich hun | | | | | |
| Y cyhoedd | | | | | |
| Busnesau | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | | | | | |
| Cwmnïau dŵr | | | | | |

**C9. Pe bai offer sy'n defnyddio dŵr, fel peiriannau golchi, peiriannau golchi llestri neu degelli, yn arddangos gwybodaeth am eu heffeithlonrwydd dŵr, a fyddai hyn yn eich annog i ddewis cynhyrchion sy'n arbed mwy o ddŵr?**

Byddai - GOFYNNWCH GWESTIWN 10
Na fyddai - EWCH I GWESTIWN 11
Ddim yn gwybod - EWCH I GWESTIWN 11

OS MAI 'BYDDAI' YW'R ATEB

**C10. A fyddech chi'n ystyried dewis offer sy'n arbed mwy o ddŵr pe baen nhw'n costio mwy, neu ddim ond pe baen nhw'n costio'r un faint?**

Pe baen nhw'n costio mwy
Dim ond pe baen nhw'n costio'r un faint
Ddim yn gwybod / yn dibynnu ar y gwahaniaeth yn y gost

GOFYNNWCH I BAWB

**C11. A oes gennych chi fesurydd dŵr gartref?**

Oes - GOFYNNWCH GWESTIWN 12
Nac oes - EWCH I GWESTIWN 13
Ddim yn gwybod - EWCH I GWESTIWN 13

OS OES GANDDYNT FESURYDD DŴR GARTREF

*Cerdyn arddangos*

**C12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynglŷn â mesuryddion dŵr? A ydych chi'n cytuno'n gryf, yn tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn tueddu i anghytuno neu'n anghytuno'n gryf?** DARLLENWCH Y RHAIN YN UCHEL – DEWISWCH Y DREFN AR HAP

i) Mae cael mesurydd dŵr yn eich annog i ddefnyddio dŵr yn fwy gofalus
ii) Mae cael mesurydd dŵr yn eich gwneud yn fwy ymwybodol o faint o ddŵr a ddefnyddiwch
iii) Dylai fod yn ofynnol i bob cartref fod â mesurydd dŵr, er mwyn iddyn nhw dalu am y dŵr a ddefnyddiant yn hytrach na thalu ffi sefydlog

GOFYNNWCH I BAWB

*Cerdyn arddangos*

**C13. Ai chi sy'n gyfrifol am dalu'r bil dŵr ar gyfer eich cartref?**

Ie – fi yw'r unig un sy'n talu'r bil
Ie – rwy'n talu'r bil ar y cyd â rhywun arall
Na – dydw i ddim yn gyfrifol am dalu'r bil
Amherthnasol